# Ymarfer Profion Darllen - Blwyddyn 2 a 3

## Ystlumod

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 1–3.

Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

---

### Ystlumod

Mae dros 950 math o ystlumod.

Mae ystlumod yn gallu hedfan.

Mae gan ystlumod ffwr neu wallt ar eu cyrff.

### Ffeithiau Mawr

Mae ystlumod yn cysgu yn ystod y dydd ac yn effro yn ystod y nos. Mae ystlumod yn gallu byw tan eu bod nhw'n 30 mlwydd oed. Mae ystlumod yn cysgu ben i waered er mwyn hedfan i ffwrdd yn gyflym os oes rhaid.





visit twinkl.cymru

1. Sawl math o ystlum sydd yn bod? Ticiwch 1.

| | |
|---|---|
| sawl math | ☐ |
| 950 math | ☐ |
| 95 math | ☐ |
| un math | ☐ |

2. Pa ddau beth sydd yn disgrifio ystlum? Ticiwch 2.

| | |
|---|---|
| llygaid mawr | ☐ |
| pen mawr | ☐ |
| ffwr ar eu cyrff | ☐ |
| gallu sboncio | ☐ |
| gallu hedfan | ☐ |

3. **Dewiswch** a **chopïwch dri** gair sy'n golygu fod ystlum yn cysgu a'i ben yn gwynebu'r llawr.

______________________________________________

4. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae ystlumod yn gallu hedfan. | √ | |
| Mae ystlumod yn cysgu yn ystod y nos ac yn effro yn ystod y dydd. | | |
| Mae ystlumod yn cysgu ben i waered. | | |
| Mae ystlumod yn gallu byw tan eu bod nhw'n 300 mlwy dd oed. | | |

**Ble Mae Ystlumod yn Byw?**
**Mae ystlumod yn byw mewn clwydi. Mae ystlumod yn byw mewn lle cynnes a thywyll, fel coed neu ogofâu.**

**Beth Mae Ystlumod yn ei Fwyta?**
**Mae ystlumod ym Mhrydain yn hoffi bwyta trychfilod. Mae nhw'n dal y trychfilod ac yn eu bwyta nhw yn yr awyr. Mae ystlumod eraill yn bwyta ffrwythau, blodau, pysgod, brogaod, gwaed ac ystlumod eraill hyd yn oed!**

5. Rhowch y brawddegau yn eu trefn o 1–5 fel y maent yn cael eu darllen uchod. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Mae nhw'n dal y trychfilod ac yn eu bwyta. | ☐ |
| Mae ystlumod yn byw mewn clwydi. | 1 |
| Mae ystlumod ym Mhrydain yn hoffi bwyta trychfilod | ☐ |
| Mae ystlumod eraill yn bwyta ffrwythau. | ☐ |
| Mae ystlumod yn byw mewn lle cynnes a thywyll. | ☐ |

6. Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

a) Mae ystlumod yn byw mewn lle __________ a thywyll, fel coed neu ogofâu.

llaith ☐ cynnes ☐ oer ☐ gwlyb ☐

b) Mae ystlumod ym Mhrydain yn hoffi bwyta __________ .

siocled ☐ iogwrt ☐ trychfilod ☐ bara ☐


visit twinkl.cymru

# Atebion

1. 950 math

2. ffwr ar eu cyrff
   gallu hedfan

3. ben i waered

4.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae ystlumod yn gallu hedfan. | √ | |
| Mae ystlumod yn cysgu yn ystod y nos ac yn effro yn ystod y dydd. | | √ |
| Mae ystlumod yn cysgu ben i waered. | √ | |
| Mae ystlumod yn gallu byw tan eu bod nhw'n 300 mlwydd oed. | | √ |

5.

Mae nhw'n dal y trychfilod ac yn eu bwyta. 3

Mae ystlumod yn byw mewn clwydi. 1

Mae ystlumod ym Mhrydain yn hoffi bwyta trychfilod 4

Mae ystlumod eraill yn bwyta ffrwythau. 5

Mae ystlumod yn byw mewn lle cynnes a thywyll. 2

6.

a) llaith ☐ cynnes ☑ oer ☐ gwlyb ☐

b) siocled ☐ iogwrt ☐ trychfilod ☑ bara ☐